
SUT YDW I'N DEFNYDDIO TURNITIN AR GYFER E-GYFLWYNO YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Dylai pob aseiniad testun a grëwyd ar brosesydd geiriau gael ei gyflwyno'n electronig, oni bai y cymeradwyr cais i'w gyflwyno ar bapur.

Mae'n arfer da, ac yn rhan o Isafswm Presenoldeb Gofynnol Prifysgol Aberystwyth, bod pob man cyflwyno aseiniadau yn cael ei greu yn yr adran Aseiniadau ar AberLearn Blackboard.


Cyn i chi greu eich man cyflwyno, bydd angen i chi wneud penderfyniad ynglŷn â marcio gwaith y myfyrwyr:

Os ydych yn meddwl y bydd angen i chi argraffu'r papurau, peidiwch â dewis 'dienw' ar gyfer yr aseiniad (oherwydd ni fydd modd i chi lawr lwytho'r holl ffeiliau i'w hargraffu ar ôl dewis 'marcio dienw').

CREU MAN CYFLWYNO TURNITIN

Ewch i'r modiwl perthnasol yn AberLearn Blackboard ac yna cliciwch ar y ddolen **Assignments** yn y ddewislen ar y chwith.

O'r botwm **Assessments**, dewiswch **TurnitinUK Assignment**.



Wrth greu'r aseiniad Turnitin cyntaf mewn modiwl byddwch yn gweld sgrîn fel yr un isod:

New Assignment

Assignment title [?](#)

Point value [?](#)

 Optional

Allow only file types that Turnitin can check for originality
 Allow any file type [?](#)

Start date [?](#)

 at :

Due date [?](#)

 at :

Post date [?](#)

 at :

NOTE: For assignments with Anonymous Marking enabled, the post date determines when grades are posted to the Blackboard Grade Centre and when the author names are

Bydd y sgrîn yn edrych ychydig yn wahanol ar gyfer unrhyw aseiniadau a ychwanegir:

Select your assignment type

Paper Assignment
 PeerMark Assignment
 Revision Assignment

Paper Assignment

Paper Assignment -The paper assignment type is the base assignment for all other assignments types (PeerMark, Revision, and Reflection).

When creating a paper assignment there are three dates that instructors will need to set: the start date, the due date, and the post date.

Mae hyn oherwydd na ellir creu **PeerMark Assignment** (i alluogi'r myfyrwyr i farcio gwaith ei gilydd) nes bod yr aseiniad cyntaf wedi cael ei greu.

Os hoffech greu man e-gyflwyno safonol, dewiswch **Paper Assignment**, ac yna byddwch yn gweld y sgrin safonol at y diben hwn:

Dylid pennu teitl (**Assignment title**) ar gyfer pob aseiniad.

Mae'r **Point value** yn ddewisol, ond os byddwch yn ei ddefnyddio, hwn yw cyfanswm y marciau ar gyfer yr aseiniad hwn (nid pwysoliad yr aseiniad yn y modiwl), felly os ydych yn rhoi cyfanswm cyfartalog, y gwerth pwyntiau yw 100.

Y **Start date** yw'r amser y daw'r ddolen yn fyw fel bo modd i'r myfyrwyr ddechrau cyflwyno eu gwaith.

Y **Due date** yw'r dyddiad a'r amser erbyn pryd y dylid cyflwyno'r aseiniad. Gallwch ganiatáu myfyrwyr i gyflwyno'u gwaith ar ôl y dyddiad hwn os dymunwch.

Y **Post date** sy'n dynodi pryd bydd y marciau a'r graddau ar gael i'r myfyrwyr. Os byddwch yn defnyddio marcio dienw, ar y Dyddiad Cyhoeddi:

- bydd modd gweld enw'r myfyrwyr (byddwch yn gallu gweld pa fyfyrwyr gafodd pa farciau)
- bydd y graddau a gofnodwch ar Turnitin yn cael eu trosglwyddo i Ganolfan Graddau Blackboard
- bydd modd i'r myfyrwyr weld eu marc a'r adborth am eu gwaith

Os nad ydych yn defnyddio marcio dienw, ar y Dyddiad Cyhoeddi:

- bydd y myfyrwyr yn gallu gweld eu marc a'r adborth am eu gwaith

Mae modd newid y dyddiad Cyhoeddi (post date); ond, fe'ch cynghorir i beidio â'i newid o fewn dwy awr i'r dyddiad/amser a nodir ar y pryd, oherwydd gall gymryd amser i'r newidiadau ddod yn weithredol – ac yn ystod yr amser hwn gall ymddangos fel pe bai'r marc a'r adborth wedi diflannu.

Wrth greu man cyflwyno, mae nifer o osodiadau dewisol y gellir eu defnyddio. Mae'r ddogfen hon yn rhestru'r rhai sydd fwyaf perthnasol i'r prosesau e-gyflwyno a ddefnyddir ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae canllaw llawn i'r holl ddewisiadau ar gael ar <http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/turnitin>

Close options

Enter special instructions ?

Allow submissions after the due date? ?

Yes

No

Originality Report

Generate Originality Reports for submissions? ?

Yes

No

Generate Originality Reports for student submissions ?

immediately (can overwrite reports until due date) ▾

Exclude bibliographic materials from Similarity Index for all papers in this assignment? ?

Yes

No

Caniatáu i fyfyrwyr gyflwyno gwaith ar ôl y dyddiad cau: gall myfyrwyr gyflwyno ffeiliau er bod y dyddiad cau wedi mynd heibio. O ddewis **Na**, ni fydd modd i'r myfyrwyr gyflwyno gwaith (efallai yr hoffech ystyried yn ofalus beth i'w wneud ynglŷn ag estyniadau). O ddewis **Ie**, bydd modd i'r myfyrwyr gyflwyno'u gwaith, ond caiff ei gofnodi yn waith hwyr ar y system.

Dangos y graddau i'r myfyrwyr ar y dyddiad Cyhoeddi yn unig: mae'r dewis hwn yn rheoli pryd mae'r myfyrwyr yn gweld y graddau a'r adborth. Argymhellwn eich bod yn dewis **Ie** – os dewiswch **Na**, bydd y myfyrwyr yn gallu gweld y radd a'r adborth ar unwaith, hyd yn oed os nad yw'r holl waith marcio wedi'i gwblhau.

Galluogi marcio dienw: Os ydych yn meddwl y bydd angen i chi argraffu'r papurau ar gyfer y cyflwyniad, dewiswch **Na**. Gellir diffodd marcio dienw ar gyfer achosion unigol, ond ni ellir gwneud hynny ar gyfer modiwl cyfan yn awtomatig, ac ni fydd modd i chi ei roi ymlaen eto.

Mae modd cadw grŵp o osodiadau diofyn ar gyfer pob man cyflwyno a grëwch, drwy roi tic yn y blwch dewisiadau diofyn:

Would you like to save these options as your defaults for future assignments?

Cliciwch ar **Save** a bydd y man cyflwyno yn barod i'w ddefnyddio.